# HYSBYSIAD O ETHOLIAD
# Etholiad Senedd Cymru
# ETHOLAETH GWYNEDD MALDWYN

Caiff etholiad ei gynnal ar gyfer Aelodau i wasanaethu yn y Senedd ar gyfer etholaeth Gwynedd Maldwyn.

Gellir cael papurau enwebu gan swyddfa'r Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH neu'n electronig drwy etholiad@gwynedd.llyw.cymru

Mae'n rhaid cyflwyno papurau enwebu, trwy apwyntiad ymlaen llaw, i'r Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH rhwng **9yb am a 4yh** ar unrhyw ddiwrnod gwaith (Llun i Gwener, ac eithrio gwyliau'r banc) o ddyddiad cyhoeddi'r hysbysiad hwn ond dim hwyrach na **4yh ar ddydd Iau 9 Ebrill 2026** neu'n electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad o ddanfoniad electronig isod ond dim hwyrach na **4yh ar ddydd Iau 9 Ebrill 2026.**

Gellir talu'r ernes o £500 fesul ymgeisydd unigol, neu'r ernes o £500 am yr ymgeisydd cyntaf ar restr plaid, a £200 am bob un o'r pum ymgeisydd nesaf ar y rhestr plaid, trwy dendr cyfreithiol neu drwy ddrafft banciwr (banciau sy'n cynnal busnes yn y Deyrnas Unedig yn unig) neu drwy drosglwyddiad banc electronig.

Os ymleddir yr etholiad, cynhelir y bleidlais ar **ddydd Iau 7 Mai 2026**

Mae'n rhaid i geisiadau i gofrestru i bleidleisio yn yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiado**l (fel y dangosir isod) erbyn **5yh ar ddydd Llun 20 Ebrill 2026**. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn **www.gov.uk/cofrestru-i-bleidleisio**

Mae'n rhaid i geisiadau, newidiadau neu achosion o ganslo pleidleisiau post gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5yh** ar **ddydd Mawrth 21 Ebrill 2026.**

Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy yn yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** yn (fel y dangosir isod) erbyn **5yh ar ddydd Mawrth 28 Ebrill 2026**.

Mae'n rhaid i geisiadau i bleidleisio trwy ddirprwy mewn argyfwng yn yr etholiad hwn gyrraedd y **Swyddog Cofrestru Etholiadol** (fel y dangosir isod) erbyn **5yh ar ddydd Iau 07 Mai 2026**

**Datganiad Cyflwyno yn Electronig**
Mae'n rhaid anfon papurau a gyflwynwyd yn electronig yn unol â'r trefniadau a nodir yn y datganiad hwn

- Os byddwch yn anfon papurau enwebu yn electroneg, rhaid eu hanfon at enwebiadau@gwynedd.llyw.cymru a rhaid iddynt gyrraedd heb fod yn hwyrach na **4.00yh ar y 09 Ebrill 2026**.
- Yr amser derbyn fydd yr amser y cofnodir derbyn yr e-bost ar system gyfrifiadurol y Swyddog Canlyniadau ar gyfer y cyfeiriad e-bost uchod.
- Rhaid anfon y papurau pleidleisio fel atodiad Pdf, Word neu Jpeg.
- Byddwch yn derbyn ateb wedi awtomeiddio pan fydd eich enwebiad wedi ei gyflwyno.
- Bydd y Swyddog Canlyniadau yn anfon rhybudd ar wahân i hysbysu'r ymgeisydd o'i benderfyniad os yw ei enwebiad yn ddilys neu beidio.

**Cyfrifoldeb y Swyddog Enwebu ar gyfer plaid neu ymgeiswyr unigol fel sy'n briodol yw sicrhau bod y Swyddog Canlyniadau yn derbyn y ffurflenni enwebu yn y ffordd gywir erbyn y dyddiad cau.**

Argraffwyd a Chyhoedwdyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH

| Swyddog Cofrestru Etholiadol y Sir | | |
|---|---|---|
| Gwynedd | Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH | 01766 771000 |
| Sir Ddinbych | Neuadd y Sir, Wynnstay Road, Rhuthun. LL15 1YN | 01824 706000 |
| Powys | Neuadd y Sir , Spa Road East, Llandrindod, Powys, LD1 5LG | 01597 826202 |
| Wrecsam | Neuadd y Dref,, Wrecsam. LL11 1AY | 01978 292020 |

**Dafydd Gibbard**
**Swyddog Canlyniadau Etholaeth**

**Dyddiedig: Mercher 25 Mawrth 2026**

Argraffwyd a Chyhoedwdyd gan y Swyddog Canlyniadau Etholaeth, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH